**Cefndir i ddeiseb 'Motion for Women' Sustrans**

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod yn reidio beic gan nad ydynt yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt feicio ar ein ffyrdd.

Mae Sustrans, prif elusen trafnidiaeth gynaliadwy'r Deyrnas Unedig, yn credu bod rhaid newid hyn ac mae angen i lywodraethau'r Deyrnas Unedig weithredu er mwyn cyflawni hyn.

Yn gynnar yn 2009 fe wnaethom gomisiynu arolwg o 1,000 o fenywod* er mwyn deall yn well pam fod menywod yn teithio ar feic am lai nac 1 y cant o siwrneiau yn y DU o gymharu â 15 y cant o siwrneiau yn yr Iseldiroedd.

Gwelsom, er bod gan nifer o fenywod fynediad at feic y gallent ei ddefnyddio, ychydig iawn sy'n dewis ei ddefnyddio'n rheolaidd:

- Mae gan 43 y cant o fenywod fynediad at feic ond dim ond 4 o fenywod sy'n defnyddio beic yn amlach nag unwaith yr wythnos

Gofynnom i fenywod beth oedd yn eu hatal rhag teithio ar feic yn amlach neu o gwbl:

- Dim yn teimlo'n ddiogel oedd y rheswm mwyaf cyffredin

Gofynnom i fenywod pa newid fyddai'n eu hannog fwyaf i feicio mwy:

- Dywedodd 67 y cant o fenywod mai lonydd wedi eu gwahanu oddi wrth draffig fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o alluogi menywod i feicio mwy

Rydym yn credu ei bod yn bosib cyflawni'r lefelau o feicio yma yn y Deyrnas Unedig sy'n bodoli yn Yr Iseldiroedd, ac y byddai mwy o fuddsoddiad mewn creu amgylchedd beicio diogelach, yn enwedig wrth greu llwybrau beicio wedi'u gwahanu oddi wrth draffig, yn mynd yn bell iawn tuag at alluogi mwy o ferched i feicio.